COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 6.30 O'R GLOCH 6.10.26

10.1 YMDDIHEURIADAU
Cyng. Edward Griffiths (Cadeirydd), Jennifer Yuill (Is-Gadeirydd), Deilwen Anderson, Evan Owen.

10.2 PRESENNOL
Cyng. Edward Williams, Nia Rees, Beth Bailey, Sion Ifor Williams, Gwynfor Evans, John Ceri Evans, Sian Edwards, William Hooban.

Yn absenoldeb y Cadeirydd ar Is-Gadeirydd cymerwyd y Gadair gan y Cyng. Sian Edwards

10.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD
Estynwyd longyfarchiadau y Cyngor i'r Cyng. John Ceri Evans a Mrs Evans a ddathlodd eu priodas aur yn ddiweddar.
Estynwyd longyfarchiadau y Cyngor i Elfyn Evans ar ddod yn Pencampwr Ralio'r Byd yn ddiweddar.

10.4 COFNODION
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Medi 1af 2026 fel rhai cywir.

10.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION
Item 9.12 Eisiau nodi mae cyfeirio at y garej betrol a nid siop One Stop oedd y Cyngor yn weld yn fler hefo'r holl arwyddion.

10.6 DATGAN BUDDIANT
Datganodd y Cyng. William Hooban ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.
Datganodd y Cyng. Nia Rees ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.
Datganodd y Cyng. Beth Bailey ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.
Datganodd y Cyng. Edward Williams ddiddordeb yng nghais cynllunio 2 Llys Bennar, Dyffryn Ardudwy a llofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo a nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y cais.

10.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD
Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Eryl Jones Williams:- Mae cynnydd wedi bod yn nifer y beiciau scramblo sy'n defnyddio'r llwybrau troed yn coed Gors y Gedol. Mae trigolion wedi cael eu gweiddi arnynt pan fydd y trigolion yn cau'r gatiau. Mae Peter Rutherford o Eryri sy'n delio â materion mynediad ar wyliau tan ganol Hydref. Mae problemau tebyg o feicwyr scramblo sy'n niweidio'r llwybrau troed wedi cael eu hadrodd mewn llawer o ardaloedd yn canolbarth Cymru. Llwyddodd yr heddlu i ddatrys problemau mewn rhai ardaloedd drwy wirio a oedd y beiciau wedi'u yswirio, os nad oedd, cafodd y beiciau eu cymeradwyo. Dywedodd Peter Rutherford y byddai'n ymweld â'r ardal gyda swyddogion llwybrau troed Gwynedd. Roedd wedi cael ei adrodd bod dros 100 o feiciau scramblo yn ein hardal leol wythnos diwethaf. Byddwn yn awgrymu bod y Cyngor Cymuned yn gwahodd Peter Rutherford, y swyddog llwybrau troed Gwynedd a'r heddlu i gyfarfod. Bydd yn broblem anodd i'w datrys. Bydd problemau traffig yn Abermaw sy'n effeithio ar draffig trwy i Ddolgellau, bysiau, mynd i ac o'r gwaith, siopa a apwyntiadau llawfeddygfa a'r fferyllfa. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan Scottish Power a swyddogion Gofal Stryd ym Caernarfon. Mae hi'n anodd cysylltu â Gofal Stryd i gael yr union fanylion a doedd priffyrdd Meirionnydd yn Nolgellau ddim yn rhan o hyn. Mae Cyngor Gwynedd wedi gohirio treth ymwelwyr er mwyn cael mwy o amser i fynd trwy'r ymgynghoriadau. Roedd dros 7,000 gyda gwrthwynebiadau gan tua 4,000. Gwnes yn glir y dylai Gwynedd aros cyn gwneud penderfyniad terfynol i weld beth oedd penderfyniadau Cynghorau Sir eraill. Mae Gwynedd eisiau ymchwiliad i sut i fynd i'r afael â'r problemau camper fans a broblemau beiciau e ledled Gwynedd. Roedd Dŵr Cymru ar fin ail wynebu y llwybr beics heibio i'r Cadwgan ym

Medi. Dim manylion eto. Rwy'n trio cael Dŵr Cymru i wella y cae pêl-droed lleol i'r rhai iau trwy y Cyng. Will Hooban. Mae Diogelu Gwynedd i weithredu'r holl argymhellion ar ôl nifer o gyfarfodydd i geisio atal camdrin myfyrwyr yn y dyfodol. Rwyf wedi cael gwybod gan drigolyn lleol fod ddim grant gwresogi gan Llywodraeth Cymru o £200 ar gael i ddefnyddwyr stôf coed. Atgoffa nad yw defnyddio pas bws ar drenau o'r 1af o Hydref ar gael ar bob trên, yn enwedig trenau sy'n cludo disgyblion i ac o'r ysgol. Rwyf ar gael ar 01341 242758

10.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Codi estyniad un llawr yng nghefn annedd bresennol, gyda man patio 2 Llys Bennar, Dyffryn Ardudwy(NP5/58/184F)
Ddim sylwadau ar y cais hwn oherwydd 'roedd yr Aelodau yn teimlo eu bod angen mwy o wybodaeth ynglyn ar cais hwn.

Trosi adeilad allanol segur yn uned gwyliau hunanarlwyo (Dosbarth Defnydd C6) ynghyd a newidiadau allanol cysylltiedig (Ail-gyflwyniad) Coed y Bachau, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/100G)
Cefnogi y cais hwn.

Amrywio Amod 4 ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/58/16K dyddiedig 29/08/2002 – sy'n cyfyngu ar y defnydd fel llety gwyliau i'r cyfnod rhwng 1af o Fawrth a 6ed o Ionawr bob blwyddyn – i fod yn llety gwyliau ar gyfer defnydd gwyliau tymor byr yn unig drwy gydol y flwyddyn Streamside Holiday Homes, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/463B)
Ddim sylwadau ar y cais hwn oherwydd 'roedd yr Aelodau yn teimlo eu bod angen mwy o wybodaeth ynglyn ar cais hwn.

10.9 MATERION YN CODI

A Cynllun Cyllideb
Adroddwyd bod £21,555.10 (yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, a bod hyn yn £13,512.90 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

B Cae Peldroed
Cafwyd wybod bod neb wedi clywed ddim byd pellach gan Mr. Michael Evans o ADRA ynglyn ar safle uchod.

C Cais Grant Gwynedd Ni
Adroddodd y Clerc ei bod wedi archebu y seddi, bwrdd picnic, hysbysfyrddau yn y gorsafoedd tren ar hysbysfwrdd i lloches bws y pentre. Hefyd adroddodd y Clerc ei bod wedi tynnu y lluniau oedd eu angen cyn i'r gwaith gymeryd lle. giat i'r parc chwarae. Hefyd cytunodd i drefnu bod y gwaith yn cael ei wneud o dan yr offer pel fasged. Byddai pwyllgor y neuadd yn archebu arwyddion i'r neuadd

D Camerau CCTV
Nid oedd diweddariad ar gael ynglyn ar mater uchod.

E Sul y Cofio
Adroddwyd bydd yr uchod yn cymeryd lle ar yr 8ed o Dachwedd am 3.00 o gloch y prynhawn yn y neuadd a gobeithio cynnal y gwasanaeth tu allan os bydd y tywydd yn caniatau a cytunodd y Cyng. Beth Bailey byddai yn chwilio am fenthyg gazebo fel bod yr uchel seinydd ddim yn glychu. Eisiau gofyn i'r Cadeirydd gysylltu gyda'r Parchedig Ben Griffith, gofyn i Mr. Christian Bowater ddarllen yr enwau allan, cysylltu gyda Mr. Trevor Roberts o'r Lleng Prydeinig, cysylltu hefo'r ATC a'r Heddlu. Cytunwyd ail ddefnyddio y torch pabi coch a dal rhoid cyfraniad i'r Lleng Prydeinig. Cytunodd y Clerc i gysylltu gyda Ms Ceri Griffiths i ofyn iddi chwarae y corn.

F Nadolig 2026
Cytunwyd bod dathliadau nadolig y pentref yn cael ei gynnal prynhawn dydd Gwener y 27ain o Dachwedd eleni ag i gychwyn am 3.30 o'r gloch. Cytunwyd bod angen archebu mwy o oleuadau a chytunodd y Cyng. Beth Bailey wneud hyn, eisiau gofyn i'r Cyng. Jennifer Yuill a ydi yn fodlon cysylltu hefo Ifor Lloyd ynglyn ag archebu coed nadolig ag hefyd cysylltu hefo Sion Corn a cytunodd y Clerc gysylltu gyda Mr. Bryn Hughes ynglyn a chael golau ger toiledau Talybont. Cytunwyd byddai bwyd a bar ar gael eleni a cytunodd y Cyng. Nia Rees a Beth Bailey fod yng nghofal trefnu hyn.

10.10 GOHEBIAETH

A Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn e-bost gan yr Adran uchod ynglyn ag Ymgynghoriad Rhwydwaith Teithio Llesol ag yn hysbysu y Cyngor bod yr Ymgynghoriad hwn ar agor tan y 26ain o Dachwedd. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

B Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bydd ffordd Glan y Mor yn Talybont yn cael ei chau ar y 14eg o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd pan fydd gwaith ar ran Dwr Cymru yn cael ei gario allan. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

C S P Energy Networks

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan S. P. Energy Works yn datgan bydd y ffordd yn Stryd King Edward, Bermoy n cau am 3 wythnos mis nesa (o'r 16eg o Dachwedd tan yr 2il o Ragfyr) tra mae gwaith trydan angenrheidiol yn cael ei gario allan ag 'roedd wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod er gwybodaeth.

D ADRA

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ateb gan yr uchod ynglyn a tir Castell Coch ag yn datgan eu bod wedi trosglwyddo y llythyr i'r adran priodol er mwyn iddynt edrych i mewn i'r ymholiad a byddant yn cysylltu hefo'r Cyngor eto cyn gynted a bydd mwy o wybodaeth ganddynt. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

E Sian Llwyd

Adroddodd y Clerc ymhellach I beth oedd wedi anfon at yr Aelodau yn barod, 'roedd PCSO Elliw Williams wedi cysylltu gyda hi yn datgan pryder ynglyn ar gwrth ymddygiad cymdeithasol sydd yn cymeryd lle yn yr ardal ar hyn o bryd o Benrhyndeudraeth draw am Bermo ag ei bod wedi derbyn e-bost gan Sian Llwyd, Swyddog Ymgysylltu a'r Gymuned a Theuluoedd yn gofyn a fyddai yn bosib cael cyfraniad ariannol tuag at y prosiect mae hi yn mynd I gynnal yn Ysgol Ardudwy gyda'r disgyblion, rhieni a gwarchodwyr I geisio atal yr hyn sydd yn digwydd ar y funud. Cytunwyd I gyfranu £200 tuag at y prosiect hwn.

F Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bydd ffordd Llwyn Ynn yn Talybont yn cael ei chau ar yr 28ain o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd pan fydd gwaith ar ran Dwr Cymru yn cael ei gario allan. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

G Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bydd ffordd Bennar yn Dyffryn Ardudwy yn cael ei chau ar yr 21ain o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd pan fydd gwaith ar ran Dwr Cymru yn cael ei gario allan. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

10.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £48,775.35 yn y cyfrif rhedegol a £67,102.87 yn y cyfrif wrth gefn.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Mrs Annwen Hughes - £273.06 - (cyflog) + £188.94 costau = £462.00
Evergreen - £470.00 - torri gwair y 3 fynwent
Gary Martayn - £386.00 - torri gwair parc chwarae, maes parcio ag amrywiol lefydd
Mr. G. J. Williams - £28.00 - torri gwair Parc Penybont yn Talybont
Mr. R. G. Williams - £80.00 - trwsio y cylchfan yn y parc chwarae
Pwyllgor Neuadd Bentref - £20.00 – llogi ystafell bwyllgor
Pwyllgor Neuadd Bentref - £97.50 – llogi'r neuadd i gyfarfodydd clwb ieuenctid

Boards Direct - £465.58 - hysbysfyrddau i gysgodfannau y gorsafoedd tren
Mr. M. J. Kerr - £500.00 - agor bedd y diweddar Millie Edwards
Mr. M. J. Kerr - £480.00 - agor bedd y diweddar Anne Moore
Sioned Webb - £250.00 - cyngerdd Meirion Williams 26.9.26 (artistiad)
Lewys Siencyn - £65.00 - cyngerdd Meirion Williams 26.9.26 (artistiad)
Richard Rees - £100.00 - cyngerdd Meirion Williams 26.9.26 (artistiad)
Pwyllgor Neuadd Bentref-£300.00 - cyngerddMeirion Williams 26.9.26 (llogi y neuadd)
Cyllid a Thollad - £204.80 - treth ar gyflog y Clerc

Ceisiadau am gymorth ariannol
Corachod Dyffryn - angen mwy o wybodaeth ynglyn a'i cyfrifon cyn penderfynu ar y cais hwn
Ambiwlans Awyr Cymru - £500.00
Pwyllgor Neuadd Bentref - £500.00
Radio Ysbyty Gwynedd - £200.00

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Beth Bailey a wnaeth y Cyng. Nia Rees gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf
H. O. Davies - £260.00 – claddu llwch y diweddar Mrs Beryl Jones
Pritchard & Griffiths - £260.00 – claddu llwch y diweddar Mrs Doris Frances Hughes
Gwilym Jones a'i Fab - £995.00 - claddu y diweddar Mrs Anne Moore
Pwyllgor Neuadd Bentref - £555.00 – gwerthiant ticedi cyngerdd Meirion Williams
H. O. Davies - £2,025.00 – claddu y diweddar Millie Edwards

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf
Catrin Soraya Williams – £159.20 - gwasanaeth cyfieithu
Defib Store - £79.20 - pad newydd i'r defib ger Smithy Garage (talwyd 22/9/26)

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi derbyn yr Archwiliad Allanol am 2025/26 yn nol ag eu bod yn datgan fel a ganlyn - Tynnaf sylw'r Cyngor at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â nhw:
Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer archwilio
Bob blwyddyn rydym yn anfon hysbysiad archwilio i'r Cyngor sy'n nodi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i gwblhau'r archwiliad. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at farn archwilio cymwys ac o bosibl ffi archwilio uwch.
Ni ddarparodd y Cyngor y dystiolaeth y gofynnwyd amdano i esbonio sut mae'n monitro incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn.
Rydym yn argymell bod y Cyngor yn adolygu'r hysbysiad archwilio blynyddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu yn amserol.
Nid oes unrhyw faterion pellach yr hoffwn eu tynnu at sylw'r Cyngor.

10.12 UNRHYW FATER ARALL
Gofynwyd a fyddai y Cyngor yn fodlon talu am logi y neuadd ar noson carolau Pwyllgor '81 a fydd yn cael ei gynnal ar y 15ed o Ragfyr. Cytunodd pawb i hyn oherwydd ei bod yn arferol i'r Cyngor dalu.
Gofynwyd a fyddai y Cyngor yn fodlon talu am logi y neuadd ar noson disogo calan gaeaf yr ysgol gynradd a fydd yn cael ei gynnal ar yr 22ain o'r mis hwn. Cytunodd pawb i hyn oherwydd ei bod yn arferol i'r Cyngor dalu.
Cafwyd wybod yn absenoldeb y Cyng. Jennifer Yuill bod y fynwent gyhoeddus yn dalus.
Coeden i lawr ag angen ei thorri ar llwybr cutting ochor Pentre Mawr.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD..... 883